Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 14.01.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Llwybr i Lefel Rhybudd 0 wedi ei gyhoeddi

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod cynllun i ddychwelyd i Lefel Rhybudd 0 dros yr wythnosau nesaf os bydd amodau'n caniatáu. O yfory, 15 Ionawr 2022, bydd nifer y gwylwyr mewn digwyddiadau awyr agored yn codi i 500. O 21 Ionawr 2022 bydd yr holl weithgareddau awyr agored yn symud i Lefel Rhybudd 0 ac o ddydd Gwener 28 Ionawr 2022, bydd Cymru yn dychwelyd i Lefel Rhybudd 0 ar gyfer yr holl weithgareddau a mangreoedd dan do. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-review-health-protection-coronavirus-restrictions-no5-wales-regulations-2020

## ARIANNU: Cymorth ychwanegol i’w ddarparu gan y Gronfa Busnes Argyfwng a’r trothwy ar gyfer cymorth o’r Gronfa Cadernid Economaidd yn cael ei ostwng

Yn dilyn y Bwletin Cefnogi Busnes ddoe, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi newidiadau i’r ddwy gronfa nesaf a fydd yn cefnogi busnesau manwerthu, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth, a’u cadwyni cyflenwi, yn dilyn y cyfyngiadau COVID-19 diweddaraf.

- mae’r isafswm lefel y cymorth sydd i’w darparu gan y Gronfa Argyfwng Busnes – a fydd yn cefnogi busnesau cymwys nad ydynt yn derbyn bil Trethi Annomestig – wedi’i chynyddu i £1,000
- mae’r trothwy i fusnesau gael budd o’r Gronfa Cadernid Economaidd – a fydd yn darparu cymorth ychwanegol i fusnesau cymwys sydd â throsiant blynyddol o fwy na £85,000 – wedi’i ostwng i’r rhai sy’n rhagweld gostyngiad o 50% mewn trosiant

I ddarllen y datganiad, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cymorth-ariannol-brys-covid-newidiadau-i-feini-prawf-cymhwysedd-erf

Mae rhagor o wybodaeth am y ddwy gronfa – sy’n debygol o agor yn ystod ail hanner yr wythnos nesaf – ar gael yn:

https://bit.ly/CyfyngiadauRhagfyr2021

Mae’r ffurflen gofrestru ar gyfer y drydedd gronfa – y Gronfa Argyfwng NDR, sy’n cefnogi busnesau cymwys sy’n derbyn bil Ardrethi Annomestig (NDR) – eisoes ar gael a gellir gael mynediad iddi hi drwy fynd i:

https://bit.ly/CyfyngiadauRhagfyr2021

## ARIANNU: £15.4 miliwn i helpu i gefnogi sectorau Celfyddydau a Diwylliant Cymru

Mae trydedd rownd y Gronfa Adfer Diwylliannol (CRF) wedi'i chyhoeddi (yn ymgorffori'r Gronfa Sefydlogrwydd Gaeaf a gyhoeddwyd yn flaenorol). Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi lansio ei broses ymgeisio ar 12 Ionawr 2022, Cysylltir â sefydliadau a gefnogwyd yn flaenorol drwy'r Gronfa Adfer Diwylliannol drwy lythyr yn ystod yr wythnos nesaf. Bydd cefnogaeth hefyd i sefydliadau cymwys nad ydynt wedi derbyn cymorth drwy'r Gronfa Adfer Diwylliannol hyd yma. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ydi 5:00pm ar 26 Ionawr 2022. Am fwy o fanylion, ewch i:

https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/ps154m-i-helpu-i-gefnogi-sectorau-celfyddydau-diwylliant-cymru

https://businesswales.gov.wales/cy

## DIGWYDDIADAU: Economi Ymweld Cynaliadwy 2035 – Digwyddiadau Rhithiol 27 Ionawr 2022 | 7 Chwefror 2022

Mae dau weithdy ar gyfer ardaloedd gwahanol Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol wedi eu trefnu i drafod sut mae cael economi ymweld cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri. Bydd cyfle i ddysgu o arfer da rhyngwladol a lleol, adnabod rhwystrau, cefnogaeth a blaenoriaethau i'r dyfodol.

Ar 27 Ionawr 2022, 2:30pm-5:30pm cynhelir gweithdy ar gyfer ardaloedd Pwllheli, Llŷn, Ardudwy, Dysynni, Dolgellau a Bala Penllyn. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.eventbrite.com/e/twristiaeth-cynaliadwy-gwynedd-eryri-sustainable-tourism-registration-239237484757

Ar 7 Chwefror 2022, 4:00pm-7:00pm, cynhelir gweithdy ar gyfer ardaloedd Bangor, Bethesda, Caernarfon, Llanberis, Dyffryn

Nantlle, Porthmadog/Penrhyndeudraeth, Bro Ffestiniog a Chonwy Wledig. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.eventbrite.com/e/twristiaeth-cynaliadwy-gwynedd-eryri-sustainable-tourism-registration-242705186747

# ARIANNU: Cronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol (IETF)

Mae'r Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol (IETF) yn cefnogi'r datblygiad a defnydd o dechnolegau sy'n galluogi busnesau sy'n defnyddio llawer o ynni i drosglwyddo i ddyfodol carbon isel. Bydd Cam 2: Gwanwyn 2022 yr IETF yn agor ar 31 Ionawr 2022, ac yn darparu cyllid grant ar gyfer astudiaethau dichonoldeb a pheirianneg, a defnyddio prosiectau effeithlonrwydd ynni diwydiannol a datgarboneiddio dwfn. Am ragor o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/collections/industrial-energy-transformation-fund

# ARIANNU: Cronfa Bwyd Môr y DU

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd cymunedau pysgota ar draws y DU yn elwa o well is-adeiledd, cadwyni cyflenwi cryfach, swyddi newydd a buddsoddiad mewn sgiliau yn sgîl hwb o £75 miliwn i'r sector – rhan o £100m o Gronfa Bwyd Môr y DU. I gael gwybod am nodau Cronfa Bwyd Môr y DU, pa gyllid sydd ar gael, a sut i wneud cais amdano, ewch i:

https://www.gov.uk/guidance/uk-seafood-fund

# CYFLE: Miwtini Egin Cegin

Os oes ganddoch chi syniad am fusnes bwyd neud ddiod, ac eisiau cefnogaeth arbenigol gan Yr Hwb Menter i ddatblygu'r syniad, ymunwch â'r Miwtini yma i ddysgu am yr adnodd ar gael yn Egin Cegin yng Nghonglmeinciau, Botwnnog. Pynciau dan sylw yn ystod y rhaglen 8 wythnos fydd hanfodion busnes, marchnata, hyfforddiant lefel 2 hylendid bwyd, prisio a chylidebu,

rheoli alergenau a brandio a phecynnu. I wneud cais cwblhewch y ffurflen gais cyn 17 Ionawr 2022, wrth fynd i:

https://form.jotform.com/Openshaw/Miwtini

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: rhys@mentermon.com

## TRETH: Troi Treth yn Ddigidol ar gyfer TAW

Mae CThEM yn atgoffa busnesau i gymryd camau i baratoi ar gyfer Troi Treth yn Ddigidol ar gyfer Treth ar Werth (TAW) cyn iddi ddod yn orfodol i bob busnes sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Am ragor o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3qtHmEp

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru